# ADRODDIAD BWLCH CYFLOG

## 2024

Rydyn ni'n ymroddedig i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yng Ngholeg y Cymoedd, ac felly'n croesawu'r cyfle hwn i gyhoeddi ein data ar y Bwlch Cyflog rhwng y rhywiau. Rydyn ni'n credu bod gan bawb hawl i gyfle cyfartal waeth beth yw eu rhywedd, ac rydyn ni'n chwilio am ffyrdd i "gau'r bwlch" ymhellach fyth. Rydyn ni'n meithrin diwylliant lle mae unigolion yn teimlo'n ddiogel, wedi'u clywed a'u croesawu.

Er bod Coleg y Cymoedd wedi'i eithrio o'r mandad i gyhoeddi data Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau, rydyn ni'n croesawu'r cyfle yma i wneud hynny, yn ogystal â'n data bylchau cyflog arall (am yr ail dro).

Rydyn ni'n awyddus i'n gweithlu adlewyrchu amrywiaeth ein dysgwyr a'n cymunedau lleol, ac i bawb yma deimlo eu bod nhw'n perthyn, waeth beth fo'u nodweddion.

Gallaf i, Jonathan Morgan, y Pennaeth a'r Prif Weithredwr, gadarnhau bod y wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn gywir.





Jonathan Morgan, Pennaeth a Phrif Weithredwr

Coleg y Cymoedd

# PROFFIL RHYWEDD




Mae 59% o'n gweithwyr yn fenywod a 41% yn ddynion. Mae hyn yn fwy cytbwys na'r diwydiant “Addysg”, sef 72% o fenywod a 28% o ddynion yn y DU[1] a'r Sector Cyhoeddus ehangach, sef 64% o fenywod a 36% yn ddynion yn y DU. 59% 41% 1.

[1]SYG (Awst 2023), EMP13: Cyflogaeth yn ôl Diwydiant

# Y BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

Nid yw'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yr un peth â Chyflog Cyfartal. Y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yw'r gwahaniaeth rhwng cyflog cyfartalog dynion a menywod. Mae Cyflog Cyfartal yn sicrhau bod dynion a menywod sy'n gwneud yr un gwaith, neu waith sydd â'r un gwerth, yn cael yr un cyflog. Mae'r holl ddata sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar "ddyddiad ciplun", sef 31 Mawrth 2023.


| Bwlch Cyflog Cymedrig | Bwlch Cyflog Canolrifol |
| --- | --- |
| 6.8% | 11.1% |

Cyfrifir y Cymedr drwy adio'r holl gyfraddau cyflog fesul awr at ei gilydd a rhannu'r cyfanswm â nifer y gweithwyr. Cyfrifir y Canolrif drwy nodi gwerth canol y cyfraddau fesul awr pan gânt eu rhestru o'r isaf i'r uchaf. Er mwyn cyfrifo'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau, rydyn ni'n tynnu'r Cymedr Gwrywaidd o'r Cymedr Benywaidd, ac yn rhannu hyn gyda'r Cymedr Gwrywaidd. Gwneir yr un cyfrifiad ar gyfer y Canolrif. Nid yw cyfrifiadau Bwlch Cyflog Bonws wedi'u cynnwys, gan na ddyfarnwyd bonysau.


# Y MEINCNOD

Mae ein Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yng Ngholeg y Cymoedd yn sylweddol is (mae'r bwlch yn llai) na'r meincnodau ar gyfer y DU yn gyffredinol, Cymru, a'r Diwydiant Addysg. Rydyn ni'n falch o hyn, ond rydyn ni hefyd yn cydnabod bod angen gwneud mwy er mwyn cau'r bwlch ymhellach.

Bwlch Cyflog Cymedrig




Bwlch Cyflog Canolrifol





2SYG (Rhagfyr 2023), PROV - sic07 Industry (2) SIC2007 Tabl 4.13

3SYG (Rhagfyr 2023), PROV Work Geography Tabl 7.12

# DADANSODDIAD CHWARTEL

Cyfrifir dadansoddiad chwartel drwy drefnu'r holl weithwyr o'r cyfraddau cyflog fesul awr isaf i'r uchaf, a rhannu hyn yn bedwar "chwartel" yr un maint.






Mae mwy o fenywod na gwrywod ym mhob chwartel. Mae mwy na 60% o fenywod (cyfartaledd y sefydliad) mewn unrhyw chwartel yn dangos bod nifer anghymesur o uchel o fenywod ynddo h.y. y chwartel isaf a'r chwartel Canol Isaf. Byddai unrhyw gyfran is na 60 % o fenywod i'r gwrthwyneb o hynny h.y. y chwartel Uchaf-Canol a'r Chwartel Uchaf


# GWEITHIO RHAN AMSER

Mae 80% o'n gweithwyr rhan amser yn fenywod. Mae 49% o'r holl fenywod yn y coleg wedi'u cyflogi ar gontract 0.8 cyfwerth ag amser llawn, o gymharu ag 19% o'r dynion. Rydyn ni'n falch o fod yn gyflogwr hyblyg, a chynnig cyfle i weithwyr leihau eu contractau a threfnu gweithio rhan amser neu yn ystod y tymor, gan gefnogi hyn lle bynnag allwn ni. Rydyn ni hefyd yn cydnabod bod rhan o'r gwaith o gau'r bwlch yn cynnwys cefnogi gweithwyr i gyflawni cynnydd gan weithio'n hyblyg o gwmpas ymrwymiadau gofalu.

Rydyn ni'n gwybod y gallai gweithio'n rhan amser effeithio ar gyfleoedd i ddatblygu neu wneud cynnydd, ac er ein bod ni'n gwneud popeth allwn ni, rydyn ni'n agored i awgrymiadau ynghylch sut i liniaru hyn.



# BWLCH CYFLOG ANABLEDD




Nid yw 97% o'n gweithwyr wedi datgan anabledd, ac mae 3% o'n gweithwyr wedi datgan anabledd

Er mwyn cyfrifo'r Bwlch Cyflog Anabledd, rydyn ni'n tynnu Cymedr y rhai sydd wedi datgan anabledd o'r rhai sydd heb ddatgan anabledd, ac yn rhannu hyn â Chymedr y rhai sydd heb ddatgan anabledd. Gwneir yr un cyfrifiad ar gyfer y Canolrif. Nid yw cyfrifiadau Bwlch Cyflog Bonws wedi'u cynnwys, gan na ddyfarnwyd bonysau.

Bwlch Cyflog Cymedrig




-3.5%

Bwlch Cyflog Canolrifol



0.0%

# BWLCH CYFLOG ETHNIGRWYDD




Mae 93.5% o'n gweithwyr yn wyn, 5.7% o'n gweithwyr heb ddatgan eu hethnigrwydd, ac mae 0.8% o gefndiroedd ethnig eraill.

Er mwyn cyfrifo'r Bwlch Cyflog Ethnigrwydd, rydyn ni'n tynnu Cymedr y rhai o gefndir ethnig arall o'r rhai sy'n wyn, ac yn rhannu hyn â Chymedr y rhai sy'n wyn. Gwneir yr un cyfrifiad ar gyfer y Canolrif. Nid yw cyfrifiadau Bwlch Cyflog Bonws wedi'u cynnwys, gan na ddyfarnwyd bonysau.

Bwlch Cyflog Cymedrig



-6.7%

Bwlch Cyflog Canolrifol



-18.9%

# CRYNODEB

Mae'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau eleni yn llai na'r rhan fwyaf o feincnodau, mewn perthynas â'r bylchau Cymedrig neu Ganolrifol. Rydyn ni'n falch iawn o hyn, ond rydyn ni hefyd yn gwybod bod camau i'w cymryd i leihau'r bwlch, a'i gau'n llwyr. Mae rhai camau rydyn ni wedi'u cymryd eleni nad ydyn nhw wedi'u hadlewyrchu yn y data eto, gan fod y Dyddiad Ciplun bron i flwyddyn yn ôl.

Er bod y Dadansoddiad Chwartel yn galonogol, ar y Dyddiad Ciplun, 38% o Dîm Rheoli'r Coleg oedd yn fenywod, sy'n anghymesur o isel. Rydyn ni'n ymroddedig i annog a chefnogi menywod i geisio cyfleoedd ar gyfer dilyniant (yn ogystal â'u cydweithwyr gwrywaidd) a byddwn ni'n datblygu ein gweithwyr ar gyfer y swyddi hyn lle bynnag gallwn ni.

Mae ein bwlch cyflog ethnigrwydd ac anabledd negyddol yn galonogol iawn – ac mae nifer y gweithwyr sydd heb ddatgan eu hethnigrwydd neu a oes ganddynt anabledd yn lleihau, sydd hefyd yn gadarnhaol.

Rydyn ni'n gobeithio y bydd yr adroddiad hwn, a'n hymdrechion eraill ar drywydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, yn annog ein cydweithwyr i gyflwyno syniadau ac awgrymiadau i gau'r blwch ymhellach yn y blynyddoedd i ddod.

**Unrhyw syniadau?**

E-bostiwch ni:
people@cymoedd.ac.uk